



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

10 Ionawr 2020

9:00 am to 12:30 pm

Optic, Llanelwy

Yn bresennol: Mary Wimbury (MWim) (cadeirydd), Bethan Jones Edwards (yn bresennol tan 11:30 yb), Alwyn Jones (yn bresennol tan 11:30 yb), Morwena Edwards, Bethan E. Jones, Charlotte Walton, Chris Stockport, Clare Budden, y Cyng. Bobby Feeley (yn bresennol tan 12 yp), y Cyng. Joan Lowe (JLo), y Cyng. Dafydd Meurig, Jennie Lewis (JLe), Jenny Williams, John Gladston, Kevin Roberts, Lynda Colwell, Marian Wyn Jones, Mark Wilkinson (MWil), Craig Macleod (yn bresennol ar ran Neil Ayling), Nicola Stubbins, Peter Williams, Shan Lloyd Williams, Wendy Jones, y Cyng. Louise Emery, Catherine Elaine Jones names here (use tab key to indent new lines or paragraphs)

Ymddiheuriadau: Teresa Owen, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Helen Corcoran, Lesley Singleton, y Cyng. Llinos Medi Huws, Neil Ayling, Roma Hooper, Judith Greenhalgh, y Cyng. Christine Jones, Rob Smith

Hefyd yn bresennol: Dr Glynne Roberts, Cyfarwyddwr Rhaglen Gogledd Cymru Well (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen)
Siobhan Adams, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, BIPBC (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen)
John Day, Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol BIPBC / Pennaeth Gwasanaeth Awdioleg (ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen)
Ramona Murray, CBSC (ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen)
Sarah Thomas, Rheolwr Cymorth Cefnogaeth Gymunedol, y Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain (ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen)
Kathryn Whitfield, Rheolwr Rhaglen Trawsffurfiad Anabledd Dysgu (ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen)
Llinos Edwards, Rheolwraig Rhaglen Gwella Gwasanaethau, Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen)

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Cadeiriodd Mary Wimbury, yr is-gadeirydd, y cyfarfod.

Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

2 Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr fel cofnod cywir. Tynnodd BJE sylw at y tabl o gamau gweithredu mewn perthynas ag adroddiad SAC ar y Gronfa Gofal Integredig a oedd ynghlwm â'r pecyn. Mae rhai o'r camau gweithredu'n dal yn 'felyn' gan eu bod yn parhau i gael eu monitro tra mae cyllid y Gronfa Gofal Integredig ar gael.

Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf yn cael eu dosbarthu.

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun y Gaeaf

Cafodd y bwrdd ddiweddariad bras gan CS ar Gynllun y Gaeaf. Diolchodd CS i'r BPRh a'r swyddogion a oedd wedi dod â chynllun rhanbarthol at ei gilydd mewn cyfnod byr i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Ni yw'r unig ranbarth i ddefnyddio dyraniad cyllid BIPBC a dyraniad cyllid BPRh gyda'i gilydd mewn un cynllun iechyd a gofal cymdeithasol rhanbarthol.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at nifer o themâu. Oherwydd amserlenni adrodd LIC, nid oedd gwybodaeth a data manwl ar berfformiad a chyflawni'r cynllun ar gael ar gyfer y cyfarfod heddiw. Bydd ar gael ar ôl cael ei ddwyn ynghyd ar gyfer adroddiadau LIC.

Tynnodd JW sylw at y mater craffu, gan nodi'r anhawster wrth gysylltu'r cynllun ag effeithiolrwydd, oherwydd y pwysau cyffredinol.

Cytunodd CS, ac un o'r anawsterau yw sut y gallwn gytuno ar y canlyniadau diriaethol sy'n dod yn sgil hyn. Bydd y pwysau'n arwain at fwy o graffu o ran pryder y cyhoedd. Mae'r gaeaf hwn wedi arwain at wahanol set ddata yr holl ffordd drwy'r system. Mae her go fawr i ymchwilio i beth mae'r buddsoddiad hwn yn ei wneud.

Mynegodd SLW a CB siom am ddiffyg cyllid i'r trydydd sector, o ystyried y rhan allweddol roedd y trydydd sector wedi'i ysgwyddo wrth ryddhau pobl o'r ysbyty. Cadarnhaodd LC bod cynllun 'Adre o'r Ysbyty' gan y trydydd sector wedi'i gyflawni ar draws y Gogledd ac fel bwrdd rhanbarthol rydym ni wedi gweld manteision y cynllun gan fod pobl wedi'u rhyddhau'n gyflym ac wedi cael y cymorth gartref.

Cadarnhaodd CS bod pob un o'r 75 cynllun ar waith ond bod rhai wedi bod ar waith ers mwy o amser nag eraill. Mae'r ffocws wedi bod ar y cynlluniau sydd i'w gweld yn rhoi'r budd mwyaf.

Dyweddodd MWim bod rhai gwllâu mewn cartrefi gofal wedi'u prynu mewn bloc gan y Bwrdd Iechyd ond nad ydynt yn cael eu defnyddio. Bydd CS yn trafod mwy am hyn gyda MWim y tu allan i'r cyfarfod.

Mae adroddiad arall ar Gynllun y Gaeaf i gael ei rannu gyda'r BPRh cyn diwedd y rhaglen.

4 Adeiladu Cymru Iachach (BAHW)

Cafodd y bwrdd ddiweddariad gan Siobhan Adams a Glynne Roberts a gyflwynodd gynllun Adeiladu Cymru Iachach ar ran Teresa Owen.

Nododd CB ei bod yn galonogol gweld elfennau ynghlwm â thai, yn gysylltiedig â digartrefedd ac ansawdd tai yn y sector preifat, wedi'u cynnwys yn y cynllun, gan y bydd gwella'r stoc dai yn y pen draw yn gwella iechyd teuluoedd.

Eglurodd SA y drafodaeth a gynhaliwyd ar gynllun 2019/20. Roedd LIC eisiau i'r cynllun ar gyfer 2019/20 a 20/21 gael ei gyflwyno iddynt erbyn 31 Rhagfyr 2019. Mae hefyd angen i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno llythyr i Lywodraeth Cymru yn yr wythnos nesaf i gadarnhau bod y cynllun wedi'i gymeradwyo gan y BPRh. Argymhellodd SA bod angen sefydlu proses barhaus gyda phartneriaid i oruchwylio sut mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cyflawni.

Dyweddodd GR bod tai yng Ngogledd Cymru nad ydynt yn addas at eu diben. Gyda'r pwyslais ar atal, mae'r rhanbarth angen dealltwriaeth o hynny. Yn aml, wrth ariannu a llenwi swyddi, mae llawer o amser yn cael ei golli.

Pwysleisiodd y cadeirydd bod angen i BPRhGC gymeradwyo'r cynllun heddiw.

Dyweddodd y Cyng.BF mai bach yw'r swm hwn o gyllid o ran y gyllideb gyffredinol. Bydd y BPRh angen dod o hyd i ffordd o edrych ar hyn mewn partneriaeth ag aelodau'r BPRh. Roedd y Cyng. BF yn teimlo nad oedd yr hyn a oedd wedi'i gyflwyno'n teimlo fel partneriaeth i ddrafftio cynllun.

Cytunodd CB â'r uchod.

Cyfeiriodd BEJ at sylwadau CB ynglŷn â thai. Er na fyddai £1.3 miliwn yn datrys y problemau tai, awgrymodd y byddai'n fwy priodol ariannu 1 fenter ranbarthol yn hytrach na nifer o brosiectau/ cynlluniau llai. Roedd BEJ hefyd yn teimlo nad oedd tystiolaeth wedi'i chyflwyno o'r hyn y byddai mentrau'n ei olygu i ddeilliannau gorau ar gyfer y rhanbarth yn seiliedig ar ganfyddiadau ein hasesiad o anghenion y boblogaeth.

Awgrymodd JW ei bod yn rhaid iddo fod yn rhywbeth sy'n fwllch e.e. digartrefedd. Nid gordewdra neu dybaco, sy'n swyddogaethau Iechyd Cyhoeddus craidd. Byddai JW hefyd yn cymeradwyo un thema ar gyfer y dyfodol.

Cytunai'r Cyng. DM â chanolbwyntio ar un neu ddau o feysydd, gan ddweud ei bod yn debyg bod y cyllid yn swm mawr, ond pan mae'n cael ei rannu rhwng y

meysydd neu nifer fawr o gynlluniau, a yw wir yn mynd i wneud gwahaniaeth? Ychwanegodd y Cyng. DM, mewn perthynas â digartrefedd, nad yw'n amlwg sut mae BIPBC wedi gweithio gyda'r awdurdodau lleol; mae gwaith yn cael ei wneud yn yr ALI – a ydym ni'n ailadrodd neu'n cydweithio? Mae cynlluniau eisoes yn barod i fynd sydd ond angen cyllid.

Soniodd SA eto am y pwysau oedd wedi bod arnynt i gyflwyno rhywbeth i Lywodraeth Cymru. Nid yw'r dyraniad cyllid ar gyfer 20/21 yn gwbl bendant a bydd angen trafod ymhellach i gytuno ar y rhain. Gyda'r cyllid ar gyfer eleni (19/20), mae angen i ni fod yn hyderus y gallwn ei wario.

Pwysleisiodd KR bwysigrwydd ystyried beth y gall pob partner ar y BPRh ei gyfrannu er mwyn cefnogi'r cynllun hwn. Nid yw ei sefydliad wedi bod ynghlwm ag unrhyw drafodaethau ond mae ganddynt rywbeth i'w gynnig o ran gwasanaethau atal ac ymyrryd.

Cytunodd y cadeirydd â'r Cyng. BF a gofynnodd a ymgynghorwyd gyda phartneriaid ar y BPRh. Ymatebodd SA bod llawer o'r gwaith hwn eisoes ar fynd. Cyllid i'w ychwanegu yn hytrach na sefydlu cynlluniau newydd yw'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y dyraniad cyllid eleni. Eglurodd SA bod gwaith ymgynghori wedi'i wneud gydag awdurdodau lleol ac mae'r rhestr sydd wedi'i llunio wedi dod o'r trafodaethau hynny, h.y. gofynnodd Sir y Fflint am gyllid ar gyfer digartrefedd; Wrecsam – Canolfan Ddeinamig Anabledau a chanol tref y Rhyl yn Sir Ddinbych.

Dywedodd NS nad oeddem eisiau creu unrhyw beth newydd o ran gwariant yn ystod y flwyddyn oherwydd cyfnod byr y gronfa.

Awgrymodd BJ na ddylid cadw at gyfrannau teg, o ystyried maint y swm o arian. Mae'n gyfle i ganolbwyntio ar yr hyn a allai fod yn broblem go iawn i ni yng Ngogledd Cymru. Rydym ni wedi mynd i batrwm o gyfrannau teg i Ogledd Cymru ond ni fydd yr ymagwedd honno a'i dyraniadau cyllid llai'n ein galluogi ni i dargedu meysydd allweddol.

Gan gydnabod y drafodaeth yn yr ystafell, gofynnodd MWim a fyddai modd i'r BPRh gymeradwyo'r cynllun ar gyfer 2019/20 ond cynnal trafodaethau brys pellach ar ddefnydd o'r cyllid ar gyfer 2020/21.

Roedd SA yn dal i bryderu am y llythyr yr oedd angen i'r Bwrdd Iechyd ei gyflwyno i gadarnhau bod y BPRh wedi cymeradwyo'r cynlluniau ac roedd yn pryderu y byddem yn colli'r cyllid. Cynigiodd BJE gael sgwrs gyda SA yn gynnar fore Llun i ddrafftio'r llythyr sydd angen mynd i Lywodraeth Cymru, i adlewyrchu'r drafodaeth heddiw ac hefyd i gadarnhau ein bod angen y cyllid. Trafod hefyd sut fyddai'r ffordd orau i ni ailgrwpio i gael trafodaethau pellach ar ddefnyddio dyraniad cyllid y flwyddyn nesaf.

Ychwanegodd NS mai ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol mae'r bwrdd hwn. Mae cydweithwyr corfforaethol yn ei hawdurdod; efallai y dylai cyfarfod ehangach ddod â phobl eraill i mewn o bob sefydliad.

Cytunodd y Cyng. DM y bydd un rhaglen yn gwneud mwy o wahaniaeth na llawer o rai bach.

Dywedodd SA bod y canllawiau'n eithaf eglur ynghylch beth y dylid gwario arno a theimlai fod ganddi hi a'i chydweithwyr yr hyn yr oedd gofyn amdano.

Gofynnodd y cadeirydd a oedd pawb yn fodlon cymeradwyo defnydd o'r cyllid ar gyfer 2019/20 a bydd BJE yn cytuno gyda SA ddydd Llun ar y ffordd orau i annog mwy o drafod ynghylch cyllid 2020/21.

Mynegodd SA bryder eto ynghylch sut y byddai hyn yn cael ei adrodd yn ôl wrth Lywodraeth Cymru.

Esboniodd BJE y gallwn lunio llythyr mewn modd sy'n rhoi sicrwydd bod angen yr holl arian. Bydd BJE yn cynorthwyo i lunio'r llythyr hwn.

Casglodd y cadeirydd y bydd BJE a SA yn dechrau trafod ddydd Llun ynglŷn â thrafodaeth bellach ar gyfer cynlluniau 2020/21 a chytuno ar lythyr priodol.

Diolchodd y cadeirydd i SA a GR am fod yn bresennol.

Camau Gweithredu

- BJE a SA i drafod cynlluniau 2020/21 ymhellach

5 Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan KW am raglen drawsnewid Anableddau Dysgu. Roedd adroddiad cynhwysfawr wedi'i gynnwys ym mhecyn y cyfarfod. Dyma'r pwyntiau allweddol i'w codi gyda'r bwrdd:

- Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i sicrhau bod budd-ddeiliaid wedi cael gwybod yn llawn am flaenoriaethau'r rhaglen drawsnewid.
- Mae'r peilot o weithgareddau trawsnewidiol wedi cael llawer mwy o geisiadau nag y gellir eu derbyn.

Argymhellodd y panel gymeradwyo'r rhan fwyaf o'r prosiectau a blaenoriaethu yn ôl sgôr. Roedd nifer bach o brosiectau wedi'u gwrthod gan nad oeddent yn bodloni'r meini prawf am gyllid.

- Roedd gwefan y rhaglen i gael ei chwblhau erbyn diwedd Ionawr.
- Mae tîm cyfreithiol CSDd ar hyn o bryd yn datblygu cytundebau cyfreithiol i fod yn sail i waith cynllunio is-ranbarthol ac integredig yn ymwneud â phreswyliaeth gyffredin.

- Mae trafodaethau ar fynd gyda rhaglenni trawsnewid eraill ac ar ddatblygu ffrydiau gwaith a llwybrau adnoddau TG.

Nododd CS nad oedd yn ymwybodol o'r risg y tynnwyd sylw ati yn yr adroddiad mewn perthynas â meddygon teulu yn Ynys Môn a bydd KW yn trafod y mater ymhellach gyda CS.

Bu i JLe longyfarch y tîm am eu hymdrechion a'u hymagwedd at gydgyhyrchu.

Roedd BPRhGC yn cytuno y dylid cymeradwyo adroddiad y Rhaglen Drawsnewid Anabledau Dysgu, yn enwedig mewn perthynas â dyrannu grantiau.

Rhaglen Drawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan LIE am raglen drawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Dyma oedd y pwyntiau allweddol:

- Mae elfennau rhanbarthol y rhaglen ar y trywydd iawn.
- Eisoës yn gweld canolfannau ICAN yn cael eu sefydlu a'u hagor. Y cam nesaf fydd sefydlu'r canolfannau hyn a'u helfennau yn llawn.
- Bydd ystyried cynaliadwyedd ICAN yn flaenoriaeth yn y dyfodol.
- Gwaith ar fynd i ddatblygu ICAN i fod yn adnoddau cymunedol gan gynnwys y trydydd sector.
- Mae swydd y rheolwr busnes ar gyfer ardal y Dwyrain yn wag a bydd yn cael ei hysbysebu yr wythnos nesaf.
- Bydd yr adroddiad gwerthuso ar y pwynt canol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Canmolodd y bwrdd y gwaith da a wnaed hyd yma ar drawsnewidiad Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, nodwyd pwysigrwydd canolbwyntio ar y trydydd sector i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol ac osgoi unrhyw fylchau yn y gwasanaeth.

Bydd LIE yn cynnwys gwybodaeth gan ddinasyddion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn adroddiad y chwarter nesaf i ddangos ei effeithiolrwydd.

Nododd PW bod canolfan yn agor yn Llandudno yn fuan, heb ymarferydd Iechyd Meddwl.

Eglurodd LE y bydd un yn ymuno yn nes ymlaen a bod llwybrau'n cael eu creu i alluogi cefnogaeth ymarferwyr yn y ganolfan hon.

6 Cynllun 3 Blynedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cafodd y bwrdd gyflwyniad gan MWil am Gynllun 3 blynedd BIPBC.

Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Bydd cydweithio â phartneriaid yn hanfodol. Mae'r cyflwyniad hwn yn ddechrau ar y gwaith ymgysylltu.
- Cydnabod anawsterau BIPBC a'r pwysau ariannol sydd arno ar hyn o bryd.
- Heriau wrth gael gofal heb ei drefnu drwy gydol y flwyddyn, ac nid yn ystod y gaeaf yn unig.
- Targedau allweddol – amser aros o 4 awr yn yr Adran Achosion Brys a 36 wythnos ar gyfer triniaeth wedi'i chynllunio.
- Gwaith cynllunio integredig lleol i adlewyrchu sail mwy integredig, gan ganolbwyntio ar y clystyrau.
- Mae LIC yn disgwyl y bydd BIPBC yn datblygu strategaeth iechyd clinigol.
- Sut i gynnwys y BPRh yn y broses gynllunio. Pan mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun mwy datblygedig, byddai MWil yn hoffi mynd i gyfarfodydd y partneriaid. Byddai hynny'n ddefnyddiol.

Cododd AJ y mater nad oedd cyfeiriad at y 4 rhaglen drawsnewid yn y cyflwyniad a dywedodd BJE hefyd bod angen cyfeirio at y strategaethau blaenorol y cytunodd y BPRh arnynt gan fod gan BIPBC rôl allweddol wrth gyflawni'r rhain hefyd.

Gwahoddodd CB MWil i ddod i'r 2025 eto.

Cadarnhaodd MWil bod BIPBC wedi dod allan o fesurau arbennig mewn meysydd penodol; mae uchelgais gyffredinol i ymadfer a bod gwasanaeth iechyd meddwl BIPBC yn agos at ddod allan o fesurau arbennig, yn amodol ar allu darparu tystiolaeth o welliant i Lywodraeth Cymru.

Mynegodd JLe bryder bod y rhaglen drawsnewid Anableddau Dysgu yn mynd ar goll yn y darlun mawr oherwydd ymbarél iechyd meddwl. Roedd angen trafodaethau i sicrhau bod iechyd anableddau dysgu'n cael ei flaenoriaethu mewn modd priodol.

Holodd y Cyng. BF a oedd digon o waith wedi'i wneud i roi gwybod i'r cyhoedd bod angen iddynt fod yn gyfrifol am eu hiechyd eu hunain ac a ddylai fod fwy o hyblygrwydd mewn gofal sylfaenol ai peidio.

Codwyd hefyd nad yw'r cynllun yn crybwyll pwysigrwydd gofalwyr.

Mae angen i bobl ddeall nad oes angen iddynt weld eu meddyg teulu bob tro.

Dywedodd MJ bod nifer o unigolion yn mynd i feddygfeydd i gael cymorth a bod angen arwain unigolion at y gwasanaeth mwyaf priodol, ac nad y meddyg neu nyrs yw hynny bob tro.

Cadarnhaodd MWil bod lle i wella o hyd o ran annog y cyhoedd i wneud dewisiadau iachach. Nid oedd gwasanaethau y tu allan i oriau byth dan fesurau arbennig ar gyfer y gwasanaethau gofal sylfaenol cyffredinol. Cydnabu hefyd bod gostyngiad wedi bod yn nifer y meddygon teulu ar draws y DU ers 2015.

Roedd CS yn cydnabod y materion a godwyd a'r broblem o ran y cyhoedd yn cymryd perchnogaeth dros eu hiechyd eu hunain a'r broblem ynghlwm â gwasanaethau cymdeithasol yn hytrach na gwneud pob dim yn feddygol. Y gobaith yw y bydd y rhaglen drawsnewid gymunedol yn help i fynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn i ni fel rhanbarth.

Cododd MWim y mater ynghlwm â Gofal Iechyd Parhaus a'i gyllid. Codwyd hyn dair blynedd yn ôl yn rhan o'r ymarfer 3 diwrnod mewn ystafell ac mae addewidion wedi'u gwneud i ddatrys y mater. Er gwaethaf trafod yn helaeth gyda'r Bwrdd Iechyd, nid yw wedi'i ddatrys ac mae MWim wedi cael gwybod na fydd dim yn newid yn ystod y flwyddyn ariannol hon er bod addewidion i'r gwrthwyneb.

Eglurodd CS bod swyddog wedi'i gyflogi gan BIPBC i weithio'n benodol ar yr agenda hon ac mae'n gweithio drwy nifer o heriau ar hyn o bryd.

Nododd MWim y sylw uchod. Fodd bynnag, ar ôl treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn sicrhau darparwyr y byddai'r mater cyllid yn cael ei ddatrys eleni, nid yw hynny wedi digwydd. Gofynnodd MWim i CHC fod ar raglen cyfarfod mis Mawrth y BPRh i'w drafod yn llawn.

Camau Gweithredu

- Agenda mis Mawrth – RW

7 Bwrdd Digidol Rhanbarthol – Diweddariad ar lafar

Cafodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan BEJ am y ffrwd waith ddigidol ranbarthol.

Dywedodd BEJ mai Bwrdd Trawsnewid Digidol Gwasanaethau Integredig Gogledd Cymru sydd bellach yn goruchwyllo darpariaeth yr holl weithgareddau digidol y mae eu hangen i gefnogi gwasanaethau integredig ar draws y rhanbarth.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 9.1.2020 lle cytunwyd y byddai sawl darn o waith yn cael eu datblygu. Bydd manyleb o waith ynghlwm ag edrych tua'r gorwel ddigidol i gefnogi'r rhaglenni trawsnewid ar gael ym mis Mawrth. Mae gwaith ar isadeiledd TG i ganiatáu gweithio'n integredig yn cael ei wneud a bydd y Bwrdd hefyd yn goruchwyllo cyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

Mae datrysiad trefnu ar gyfer Timau Adnoddau Cymunedol yn cael ei dreialu yn yr ardal ganolog (Bae Colwyn a'r Rhyl). Mae'r prosiect hwn yn ceisio nodi unigolion i leihau dyblygu, a deall a rheoli trefniadau ymweld ar gyfer nyrsys ardal.

Rheolyddion

Dyweddod BEJ bod cyllid wedi'i sicrhau i dreialu prosiect i geisio asesu sut mae modd gosod y systemau meddygon teulu i gefnogi Tîm Adnoddau Cymunedol.

Rheoli Perfformiad a Gwybodaeth Fusnes

Soniodd BEJ am bresenoldeb da yn y gweithdy 'right-sizing, so what?' a arweiniwyd gan yr Uned Gyflawni genedlaethol. Roedd y digwyddiad yn amlygu heriau sylweddol o fod â setiau data safonol ar draws sefydliadau. Roedd y data gan ALL a BIPBC yn wahanol iawn.

Llywodraethu Gwybodaeth

Mae angen eglurder yma; mae llywodraethu gwybodaeth yn aml yn cael ei gynnig fel rheswm pam na allwn wneud pethau, ond dylai fod yn rheswm pam y gallwn. Mae'r Cylch Gorchwyl yn disgwyl i gael ei adolygu a'i gymeradwyo.

Prosiectau sefydliadol

Mae CBSW bellach wedi cyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

Dyweddod BEJ bod Tîm Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd gogledd Cymru wedi rhoi pwyslais ar drawsnewid digidol ar draws pob ffrwd waith, gyda chyllid ar gael.

Mynegodd JR bryder bod y ffocws yn y camau cynnar o ddod â dwy system ynghyd yn tueddu i fod ar y systemau hynny'n unig, sy'n gallu cael effaith niweidiol ar systemau eraill.

Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd systemau dwyieithog a dylai materion ieithyddol (adnoddau ac arbenigedd) gael eu cynnwys yn rhan o'r cam cynllunio yn y dyfodol.

8 Cynnydd wrth fodloni Deddf Trais yn Erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol

Cafodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan JW am gynnydd wrth fodloni Deddf Trais yn Erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol.

Eglurodd JW bod y gyfraith wedi newid yn 2015 a'i bod yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar y rhan fwyaf o bartneriaid ynghlwm â hyfforddiant a sicrhau ymateb gan y sefydliad cyfan, sydd wedi bod yn her.

Mae'r adroddiad yn awgrymu nad yw'r rhanbarth yn bodloni gofynion y gyfraith.

Canfyddiadau allweddol:

- Yn bennaf, er gwaethaf y ddeddfwriaeth, mae'r adroddiad yn awgrymu bod bylchau sylweddol a gwasanaeth tameidiog, sy'n anodd i'w ddefnyddio.
- Byddai ailedrych ar yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth o fudd.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu cynnydd gydag argymhelliad sy'n trafod cyllid byrdymor cymhleth; yn y gorffennol, canolbwyntid yn drwm ar gymorth i ferched. Mae'r ymateb yn ymwneud ag achub dioddefwyr ac mae'r rhanbarth wedi gwneud cynnydd sylweddol, ac nid symud troseddwr yw'r ateb bob tro.

Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei ddatblygu mewn rhaglenni eraill.

Eglurodd WJ, ar ôl gweithio gyda grŵp gwobrwyol o bobl yn ddiweddar, y rhwystr mwyaf oedd y system cyfiawnder troseddol ei hun.

Cytunodd y Cyng. BF, gan ddweud bod problem gyda phlant sy'n derbyn gofal, ac awgrymodd weithredu trwy lythyr, gan ei bod yn ddigon anodd fel y mae hi heb y lefel gywir o gyfraniad gan y system gyfiawnder.

Cytunodd JG, gan amlygu bod plant yn cael eu herlyn a oedd mewn gwirionedd yn ddioddefwyr. Mater ynglŷn â phobl ddi-amddiffyn mewn cymdeithas yw hwn.

Mynegodd SLW siom bod yr holl enghreifftiau yn yr adroddiad o Dde Cymru, gydag ystod fawr iawn o waith hefyd yn cael ei wneud yn y Gogledd.

Daeth y cadeirydd i gasgliad gan ddweud y byddai'r BPRh yn ysgrifennu at y Gweinidog, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Swyddog Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan nodi'r problemau uchod e.e. amlygu problem bod bwloch yn y system gyfiawnder.

Camau Gweithredu

- Llythyr gan gadeirydd y BPRh i'r Gweinidog, SAC a'r Swyddog CHD- BJE

9 Strategaeth Genedlaethol Colli Clyw

Cafodd y bwrdd ddiweddariad yn llawn gwybodaeth gan John Day o'r Strategaeth Genedlaethol Colli Clyw.

Roedd y cadeirydd yn gefnogol i'r sector fod ynghlwm â'r gwaith hwn yn fwy.

Holodd BF am y cysylltiad rhwng dementia a cholli clyw.

Rhoddodd JD wybod am waith a oedd ar fynd rhwng y ddwy ffrwd waith ac mae ymchwil presennol wedi nodi cysylltiad rhwng colli clyw i raddau helaeth a dementia.

Gofynnodd MJ sut y byddai modd newid sut mae colli clyw'n cael ei weld.

Dywedodd JD bod cynnydd yn cael ei wneud a bod gwelliannau parhaus i'r dechnoleg yn cynorthwyo o ran ei dderbyn. Gorau po gyntaf mae unigolyn yn cael diagnosis (mewn perthynas â chymhorthion clyw a dementia).

Nododd CS y gwaith rhagorol mae JD wedi'i wneud o fewn gofal sylfaenol. Mae'n waith arloesol yn fyd-eang ac mae wedi'i ganmol gan gydweithwyr gofal sylfaenol a'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

10 Unrhyw Fater Arall

Cododd WJ bod gwahaniaeth barn rhwng y partneriaid o ran y term 'sefydliadau gwerth cymdeithasol' a gofynnodd a oedd diffiniad rhanbarthol neu genedlaethol o hyn.

Dywedodd BJE bod y diffiniad i'w weld yn rhan 2, adran 16 yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sy'n cyfeirio'n benodol at fentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y defnyddwyr a'r 3ydd sector. Mae hefyd wedi'i ddiffinio yng nghanllawiau'r Gronfa Gofal Integredig.

Digwyddiad Dysgu'r BPRh – 12.02.2020

Atgoffodd y cadeirydd bawb ynghylch Digwyddiad Dysgu'r BPRh a oedd wedi'i aildrefnu i 12.02.2020. Dylid anfon enwau ychwanegol ymlaen at RW.

Mae BJE a TO eisoes yn dod iddo.

Adroddiad y Gronfa Gofal Integredig – er gwybodaeth yn unig

Adroddiadau ar y Ganolfan Ymchwil, Arloesi a Gwelliannau – er gwybodaeth yn unig. Bydd adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r BPRh fis Mawrth 2020.

Camau Gweithredu

- Enwau ychwanegol i'r Digwyddiad Dysgu i RW
- Adroddiad ar y Ganolfan Ymchwil ar rhaglen mis Mawrth - RW